# Dilynwch Sbarc© i gael noson tân gwyllt ddiogel




Mae Sbarc yn joio noson tân gwyllt.
Mae Sbarc yn cadw'n ddiogel trwy ddilyn y **Cod Tân Gwyllt.**

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru
South Wales
Fire and Rescue Service


Cadwch anifeiliaid anwes yn ddiogel y tu mewn achos gall sŵn tân gwyllt eu dychryn.
Peidiwch byth â rhoi ffyn gwreichion i blentyn dan bump oed.
Dim ond oedolion a ddylai drin a chynnau tân gwyllt.
Rhaid i chi fod yn 18 OED cyn y cewch brynu tân gwyllt yn y siopau.
PEIDIWCH BYTH Â CHWARAE Â THÂN GWYLLT. Maen nhw’n beryglus a gallant eich brifo.

Cofiwch mai dim ond un ffon wreichion y dylech ei dal ar y tro, a dylech ei chadw hyd braich i ffwrdd o'ch corff.

Pan fydd ffon wreichion yn diffodd **PEIDIWCH Â'I CHYFFWRDD**. Gofynnwch i oedolyn roi blaen poeth y ffon wreichion mewn bwced o ddŵr neu dywod.

Pan fyddwch yn gwylio tân gwyllt, **SAFWCH YMHELL YN ÔL**, bob tro.

**PEIDIWCH BYTH Â MYND YN AGOS AT DÂN GWYLLT** pan fydd wedi ei gynnau. Hyd yn oed os nad yw wedi diffodd, gallai ffrwydro o hyd.

# Y Cod Tân Gwyllt

- Cynlluniwch eich arddangosfa tân gwyllt er mwyn sicrhau ei bod yn ddiogel ac yn bleserus, a sicrhewch ei bod yn gorffen cyn 11yh.
- Dim ond tân gwyllt sydd â'r marc CE arnynt y dylech eu prynu, a dylech eu cadw mewn blwch caeedig a'u defnyddio un ar y tro.
- Darllenwch a dilynwch y cyfarwyddiadau ar bob tân gwyllt, gan ddefnyddio tortsh os bydd angen.
- Cyneuwch y tân gwyllt â thapr ac o bellter hyd braich, a safwch ymhell yn ôl.
- Cadwch fflamau noeth, yn cynnwys sigaréts, ymhell oddi wrth dân gwyllt.
- Peidiwch byth â dychwelyd at dân gwyllt wedi iddo gael ei gynnau.
- Peidiwch â rhoi tân gwyllt mewn pocedi a pheidiwch byth â'u taflu.
- Cyfeiriwch rocedi tân gwyllt ymhell oddi wrth wylwyr.
- Peidiwch byth â defnyddio paraffin neu betrol ar goelcerth.
- Gwnewch yn siŵr fod y goelcerth wedi diffodd a'r amgylchedd yn ddiogel cyn gadael.

**www.direct.gov.uk/fireworks**

**www.rospa.com/Home-Safety/Advice/Fireworks-Safety**

Byddwch yn ymwybodol o'r amgylchedd trwy beidio ag argraffu'r ddogfen hon os nad oes rhaid.